

gwarchodfa natur leol

# MYNYDD MARIAN

local nature reserve

**ehangwch eich gorwelion…**
**broaden your horizons…**

- **Golygfeydd gwych**
- **Yn agos i Lysfaen a Hen Golwyn**
- **Llawer o fywyd gwyllt**



- **Great views**
- **Close to Llysfaen & Old Colwyn**
- **Rich in wildlife**



## Croeso i Warchodfa Natur Leol Mynydd Marian

Golygfeydd rhagorol o'r arfordir a'r mynyddoedd, blodau gwyllt, briallu, glaswellt hir, gloÿnnod byw, adar, genau-goeg a mamaliaid. Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau eich ymweliad i'r warchodfa natur hon ar ben y bryn!.

### SUT YDW I'N MYND YNO?

**Ar drên:** O orsafoedd Bae Colwyn neu Prestatyn gallwch ddal bws i Lysfaen. I gael gwybodaeth gyffredinol am drenau, ffoniwch 08457 484950 neu ewch i: www.nationalrail.co.uk.

**Ar fws:** Ffoniwch Traveline Cymru ar 0871 200 22 33 neu ewch i: www.traveline-cymru.info

**Mewn car:** Gadewch yr A55 - cyffordd 22 neu 23. Gweler y map am fanylion ar sut i gyrraedd y safle.

### MWY O WARCHODFEYDD NATUR A THEITHIAU CERDDED YNG NGHONWY

Am fwy o wybodaeth: www.conwy.gov.uk/cefngwlad
**E-bost:** cg.cs@conwy.gov.uk
**Ffôn:** 01492 575547/575290

## Welcome to Mynydd Marian Local Nature Reserve

Stunning coastal and mountain views, flushes of wild orchids, clumps of cowslips, long wafting grasses, butterflies, birds, lizards and mammals. We hope you enjoy your visit to this hilltop nature reserve!

### HOW DO I GET THERE?


**By train:** From Colwyn Bay or Prestatyn stations you can catch a bus to Llysfaen. For general rail enquiries, call 08457 484950 or visit: www.nationalrail.co.uk

**By bus:** Call Traveline Cymru on 0871 200 22 33 or visit: www.traveline-cymru.info

**By car:** Leave the A55 at junction 22 or 23. See the map for details of how to reach the site.

### MORE NATURE RESERVES AND WALKS IN CONWY

For further information: www.conwy.gov.uk/countryside
**Email:** cg.cs@conwy.gov.uk
**Tel:** 01492 575547/575290





***Dilynwch Y Côd Cefn Gwlad os gwelwch yn dda***
Parchwch • Diogelwch • Mwynhewch

***Please follow The Countryside Code***
Respect • Protect • Enjoy



Gwasanaeth Cefn Gwlad Countryside Service Conwy
Llywodraeth Cynulliad Cymru Welsh Assembly Government
Cyngor Cefn Gwlad Cymru Countryside Council for Wales



© Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl. Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 100023380 2010
© Intermap Technologies Inc. Cedwir pob hawl DCON100 2010

© Crown copyright. All rights reserved. Conwy County Borough Council 100023380 2010
© Intermap Technologies Inc. All rights reserved DCON100 2010

## DAEAREG

**Chwilio am ffosiliau!**

Os edrychwch yn ofalus yn y waliau cerrig ac ar y clogfeini ym Mynydd Marian byddwch yn siŵr o ddod o hyd i ddigon o ffosiliau. Ffosiliau o weddillion yr anifeiliaid di-asgwrn-cefn oedd yn byw yma tua 300 miliwn o flynyddoedd yn ôl yw'r rhain, pan oedd y rhan hon o Gymru wedi'i gorchuddio gan fôr cynnes. Yn raddol, gorchuddiwyd gwely'r môr gyda chregyn yr anifeiliaid di-asgwrn-cefn oedd wedi marw, a dros filiynau o flynyddoedd gwasgwyd haenau ohonynt i ffurfio calchfaen.

## HANES

Ar ben Mynydd Marian mae Telegraph House, a adeiladwyd yn 1841. Er ei fod rŵan yn eiddo preifat, ar un adeg roedd yn un o ddeuddeg gorsaf telegraff oedd yn anfon negeseuon ar hyd yr arfordir o Gaergybi i Lerpwl gan ddefnyddio math o semaffor. Bryd hynny roedd Lerpwl yn borthladd pwysig ac roedd hi'n ddefnyddiol i'r porthladd wybod pa gychod fyddai'n cyrraedd, ac yn cludo pa lwyth. Y record ar gyfer anfon neges o Gaergybi i Lerpwl oedd 53 eiliad! Edrychwch ar Telegraph House a byddwch yn gallu gweld platfform y to - dyma'r fan lle'r oedd y negeseuon yn cael eu hanfon.

Ar un adeg, roedd nifer o chwareli bychain o amgylch Mynydd Marian, yn cynhyrchu calchfaen naill ai ar gyfer adeiladu, neu ar gyfer ei losgi mewn odynau i gynhyrchu calch y mae ffermwyr wedi'i ddefnyddio yn draddodiadol i wella ffrwythlondeb y pridd. Heddiw, mae wynebau serth y creigiau a adawyd gan Chwarel Castle Inn yn boblogaidd gyda dringwyr.


Yn 2001 cafodd gwerth Mynydd Marian ar gyfer bywyd gwyllt a'r gymuned leol ei gydnabod trwy ei ddynodi yn Warchodfa Natur Leol. Mae'r ardal hon yn cael ei rheoli gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

## BYWYD GWYLLT

Mae Mynydd Marian yn gartref i amrywiaeth eang o blanhigion ac anifeiliaid. Yn y gwanwyn a'r haf mae digonedd o flodau gwyllt yn blodeuo mewn môr o laswellt. Dim ond ar galchfaen y mae'r mwyafrif o'r blodau gwyllt a glaswellt sydd yma yn gallu tyfu - ac, oherwydd bod cymaint o laswelltir calchfaen wedi'i golli i amaethyddiaeth neu ddatblygiad, maent yn prinhau. Mae'r blodau a'r glaswellt yn fwyd ar gyfer amrywiaeth helaeth o loÿnnod byw, pryfaid eraill, adar a mamaliaid bychain. Yn eu tro bydd y rhain yn fwyd ar gyfer ysglyfaethwyr fel ystlumod, cudyll coch, moch daear a llwynogod. Oherwydd bod llawer o'r cynefinoedd, planhigion ac anifeiliaid sydd yma yn brin yn genedlaethol, mae safle Mynydd Marian wedi'i ddynodi yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Ymysg y planhigion ac anifeiliaid prin sydd yma mae'r cor-rosyn lledlwyd, pumnalen y gwanwyn, a'r gloÿnnod byw glesyn serennog a'r gwibiwr llwyd.

## YCHYDIG O WYBODAETH YNGLŶN Â RHEOLI'R SAFLE...

Mae glaswelltir calchfaen yn gynefin prin iawn ym Mhrydain heddiw, ac oherwydd hyn mae'r planhigion a'r anifeiliaid sy'n byw yn y cynefin hwn hefyd yn prinhau. Er mwyn cadw'r rhan fwyaf o Fynydd Marian yn laswelltir, mae'n rhaid torri glasbrennau a llwyni eithin bob blwyddyn. Os byddai'r safle yn cael ei adael i brosesau naturiol, byddai'n goetir prysg mewn ychydig flynyddoedd - sydd hefyd yn gynefin gwerthfawr - ond yn llawer mwy cyffredin na glaswelltir calchfaen. Efallai eich bod yn meddwl ei fod yn annaturiol i gadw Mynydd Marian fel glaswelltir os yw'n dymuno troi yn goetir, ond ers talwm iawn ym Mhrydain, pan roedd llawer o gyflwr naturiol y wlad yn cael ei gorchuddio â choetiroedd, byddai rhai glaswelltiroedd wedi cael eu cynnal gan anifeiliaid mawr, gwyllt oedd yn pori arnynt. Yn fwy diweddar, mae pobl wedi cadw anifeiliaid sy'n pori ac felly wedi cadw'r glaswelltiroedd. Heddiw, mae safleoedd fel Mynydd Marian sydd heb ffens yn llawer anoddach eu cynnal heb lawer iawn o waith gan fodau dynol!




© Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl. Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 100023380 2010
© Intermap Technologies Inc. Cedwir pob hawl DCON100 2010

© Crown copyright. All rights reserved. Conwy County Borough Council 100023380 2010
© Intermap Technologies Inc. All rights reserved DCON100 2010


## GEOLOGY

**Hunt for fossils!**

If you look carefully in the stone walls and on the boulders at Mynydd Marian you will find plenty of fossils. These are the fossilised remains of invertebrates who lived here about 300 million years ago when this part of Wales was covered by a warm sea. The shells of the dead invertebrates gradually built up on the sea bed and over millions of years layers of them were compressed to form limestone.

## HISTORY

Perched on top of Mynydd Marian is Telegraph House, built in 1841. Now a private residence, it was once one of twelve telegraph stations which relayed messages along the coast from Holyhead to Liverpool using a type of semaphore. At the time Liverpool was a major port and it was useful for the port to know what boats would be arriving and with what cargo. The record for sending a message from Holyhead to Liverpool was 53 seconds! Take a look at Telegraph House and you'll be able to see the roof platform - this is where the messages were sent from.

There were once many small quarries around Mynydd Marian, producing limestone which was used either for building, or was burnt in limekilns to produce lime, which farmers have traditionally used to improve soil fertility. Today, the steep rock faces which were left by the Castle Inn Quarry are popular with climbers.

In 2001 Mynydd Marian's value for wildlife and to the local community was recognised through its designation as a Local Nature Reserve. The area is managed by Conwy County Borough Council.

## WILDLIFE

Mynydd Marian is home to a wide range of plants and animals. In spring and summer a profusion of wild flowers bloom brightly in a sea of grasses. Most of the wildflowers and grasses that grow here can only grow on limestone - and due to the loss of so much limestone grassland to intensive agriculture or development - are increasingly rare. These flowers and grasses provide food for a huge variety of butterflies, other insects, birds and small mammals. These in turn provide food for predators such as bats, kestrels, badgers and foxes. Because many of the habitats, plants and animals found here are nationally scarce Mynydd Marian has been designated a Site of Special Scientific Interest. Among the rarer plants and animals found here are hoary rockrose, spring cinquefoil, the silver studded blue and dingy skipper butterflies.

## A BIT ABOUT SITE MANAGEMENT...

Limestone grassland is a very rare habitat in Britain today, and because of this the plants and animals which live in this habitat are also increasingly rare. In order to keep most of Mynydd Marian as grassland, sapling trees and gorse bushes have to be cut every year. If the site were left to natural processes in a few years it would become a scrubby woodland - which is also valuable habitat - but much commoner than limestone grassland. You might think it seems unnatural to keep Mynydd Marian as grassland if it wants to become woodland, but in ancient Britain, when much of the country's natural state was to be blanketed in woodland, some grasslands would have been maintained by large wild, grazing animals. In more recent times people have kept grazing animals and they have kept grasslands intact. Nowadays unfenced sites like Mynydd Marian are more difficult to maintain without lots of human intervention!